tafod elái

Hydref 1993 | Pris 25c | Rhif 81

TLWS I'R CYNLLUN CHWARAE

Roedd Ysgol Gyfun Rhydfelen yn fwrlwm o weithgaredd dros gyfnod pedwar wythnos olaf gwyliau'r haf. Bu dros 120 o blant yn cymeryd rhan yng Nghynllun Chwarae Menter Taf Elái mewn gweithgareddau o bob math - peintio, nofio, edrych ar fideos, chwaraeon, teithiau ac yn y blaen. Yn ogystal â bod yn gynllun chwarae roedd hefyd yn gynllun gofal er mwyn rhoi cyfle i rieni oedd yn gweithio i adael eu plant mewn awyrgylch saff Cymraeg. Ac i goroni yr holl weithgarwch cyflwynwyd y tlws arbennig am gynllun chwarae gorau ardal Taf Elái i'r cynllun. Yna am bythefnos ar ddiwedd mis Medi trefnwyd arddangosfa o waith celf a chrefft y plant yn y Tŷ Model, Llantrisant. Diolch i staff y Tŷ Model am eu cydweithrediad.

Gobeithir y bydd Cynllun Chwarae dros hanner tymor yr Hydref 25 - 29 Hydref yn Ysgol Gyfun Rhydfelen.

Rhifyn Swmpus
8fed
Pen-blwydd
Tafod Elái

Archebwch eich copi o

Tafod Elái

£2.50
am y flwyddyn

DIOGELU PONTYPRIDD

Fe all cynllun gwerth £500,000 i sicrhau diogelwch ychwanegol i ganol tref Pontypridd rhag llifogydd ddechrau yn ystod y misoedd nesaf. Mae'r Awdurdod Afonydd Cenedlaethol eisoes yn cysylltu'n agos a'r Swyddfa Gymreig mewn ymgais i gael cymorth grant ar gyfer y cynllun sy'n ceisio atal y problemau llifogydd difrifol a welwyd yn y dref fis Rhagfyr y llynedd rhag ail-ddigwydd.

Mae'r cynllun yn golygu adeiladu mur amddiffyn o 150 metr ar hyd y lan ochr y dref o'r Afon Taf o bont droed Ynysangharad i ran isaf y parc ceir presennol. Mae hefyd yn ymgorffori clawdd pridd am 150 metr ymhellach i fyny'r afon. Caiff glan yr afon o flaen y clawdd amddiffyn ei hadeiladu o gerrig bloc, a fydd yn cynnal rhodfa ar hyd y mur.

Parhad ar dudalen 2

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams Pentyrch 890040

NEWYDDION LLEOL
Dilwen Davies 0443 223687
ERTHYGLAU
Emlyn Davies 0222 891344
LLUNIAU
D. J. Davies
Tonyrefail 671327
HYSBYSEBION
David Knight Pentyrch 891353
DOSBARTHU
Silyn Roberts 0443 207562
TRYSORYDD
Elgan Lloyd Radur 842115
CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams Pentyrch 890979

PWYLLGOR
Rhys Llywelyn
Rhys Dafis
Anna Jones

Cyhoeddir y rhifyn nesaf
ar y 1af o Dachwedd
Erthyglau a straeon
i gyrraedd erbyn
17 Hydref 1993

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF4 8TG
Ffôn: 0222 890040

Cyhoeddir Tafod Elái gan
y Bwrdd Golygyddol
gyda chefnogaeth ariannol
Cymdeithas Celfyddydau
De-Ddwyrain Cymru a'r
Swyddfa Gymreig.
Argraffwyd gan

ARCH
PRESS LIMITED

Rhifyn wythfed penblwydd Tafod Elái yw'r rhifyn hwn (tydi amser yn mynd yn gyflym), ac ym mis Medi cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y papur i geisio gadw trefn ar bethau. Y newyddion da yw fod y sefyllfa ariannol yn foddhaol, fod llewyrch ar gynnwys y papur, fod diwyg y papur wedi gwella gyda'r Printer Laser a fod na griw ffyddlon o ohebwyr lleol a dosbarthwyr yn cadw'r olwynion i droi. Roedd dwy o'r Bwrdd Golygyddol am gael gorffwys sef Gill Rees a Siân Jones a diolchwyd iddynt am eu cyfraniad i'r papur dros nifer o flynyddoedd.

Prif swyddogaeth yr Ysgrifennydd yw sicrhau fod y Bwrdd Golygyddol yn cadw mewn cysylltiad a fod y gohebiaeth mewn trefn. Nid yn unig y llwyddodd Gill i wneud hynny yn ardderchog ond fe ddaeth cyfarfodydd anffurfiol y Bwrdd Golygyddol yn noson gymdeithasol hwyliog yng nghalendr Tafod Elái.

Siân oedd yn gyfrifol am sicrhau fod llif o newyddion cyson yn dod oddiwrth y Gohebwyr Lleol. Newyddion lleol yw calon y papur. Mae'r straeon, y dathliadau a'r digwyddiadau yn adlewyrchu bwrlwm yr ardal ac mae pawb am wybod hynt a helynt eu cymdogion a'u bro.

Rydym wedi bod yn ffodus iawn i gael dau newydd i'n cynorthwyo. Bydd Dilwen Davies yn cymeryd drosodd fel cysylltydd i'r gohebwyr lleol a bydd Emlyn Davies yn Olygydd Erthyglau.

Ond dros y blynyddoedd bu'r nifer ar y Bwrdd Golygyddol yn lleihau a'r apêl nawr yw am i wirfoddolwyr ymuno â ni i gryfhau y tîm ac i lenwi'r bylchau. Mae angen syniadau newydd ac mae angen cymorth ymarferol ymhob agwedd o gynhyrchu'r papur.

MAE'R ŴYL YMLAEN

Cynhelir wythfed Ŵyl Ddrama Tafod Elái ar Tachwedd 24, 25, 26 yn Neuadd Dowlais. Eleni Iola Gregory fydd yn tafoli'r perfformiadau. Cysylltwch ar unwaith (0222 890979) i gofrestru eich drama, panto neu Noson Lawen.

YSGOL GYFUN RHYDFELEN

yn cyflwyno'r Ddrama Gerdd

"MEWN CADWYNI"

7.15 p.m. Nos Lun - Nos Iau
18 - 21 Hydref
Tocynnau o'r Ysgol
Ffôn: 0443 486816

DIOGELU PONTYPRIDD

(Parhad o Tudalen 1)

Mae Cyngor Bwrdeistref Taf Elai eisoes wedi rhoi caniatad cynllunio ar gyfer y cynllun yn gyffredinol, a bydd yn cyfrannu tuag at gost y rhodfa. Mae datganiad amgylcheddol sy'n asesu effeithiau'r gwaith atal llifogydd wedi ei baratoi, a gwahoddwyd sylwadau'r cyhoedd.

Mae gwaith Dwr Cymru i adnewyddu a chodi safon y sustemau carthion budr yn mynd ymlaen yn dda ar hyd y rhan o'r afon y bydd y cynllun gwella a fwriedir yn effeithio arni.

Meddai Rheolwr Ardal De Ddwyrain Cymru o'r AAC, Terry Widnall: "Credwn y bydd y cynllun yn rhoi llawer mwy o ddiogelwch rhag llifogydd i adeiladau manwerthu a masnachu yng nghanol y dref a ddioddefodd mor ofnadwy fis Rhagfyr y llynedd. Ar hyn o bryd rydyn ni'n ymateb i nifer o gwestiynau manwl gan y Swyddfa Gymreig am y cynllun, a gobeithio y gall y gwaith pwysig hwn ddechrau mor fuan a phosibl."

Yn ogystal â'r gwaith ar yr Afon Taf mae AAC wedi rho caniatad i waith cynnal a chadw arferol gwerth £20,000 i ddechrau ar unwaith ar ddarn byr ar hyd Afon Rhondda yng nghefn Stryd y Felin, Pontypridd. Bydd y cynllun yn golygu ail-raddio, clirio sial a rheoli tyfiant i wella'r sianel, a gallai hynny leihau'n, sylweddol y perygl o gael llifogydd yn y stryd ei hun Ond ni fydd y gwaith er hynny'n dileu perygl llifogydd mewn seleri oherwydd eu lefel ac am eu bod mor agos i'r afon.

PONTYPRIDD

Gohebydd Lleol: Delyth Jones

SYMUD YMLAEN

Llongyfarchiadau i bawb o'r ardal oedd yn llwyddiannus yn eu arholiadau TGAU a Lefel A. Dymuniadau gorau i bawb sy'n dechrau yn y Coleg yn yr Hydref.

YSGOL EVAN JAMES

Mae Adran yr Urdd wedi ail gychwyn yn yr ysgol ar nos Lun.

Daeth ymwelydd arbennig i'r ysgol ar ddydd Gwener, Medi 18. Roedd y plant wrth eu bodd yng nghwmni Dafydd Iwan oedd wedi dod i'r ysgol i ddiddanu'r plant.

GWASANAETH DIOLCHGARWCH

Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch Ysgol Pont Siôn Norton eleni ar Hydref yr 8fed yn Neuadd yr ysgol.

SÊR TELEDU

Llongyfarchiadau i Tristan Griffiths oedd wedi cymeryd rhan yng nghystadleuaeth terfynol "Gemau Heb Ffiniau". Roedd Rhodri Owain Francis wrthi ar "Bacha Hi O'Ma" ym mis Medi.

CAPEL SARDIS
GWELLHAD BUAN

Llawenydd i ni fel teulu yn Sardis yw gwybod fod Glyn Davies, Treforest Court wedi cael dod adref ar ôl bod yn Ysbyty Dwyrain Morgannwg ac Ysbyty Dewi Sant am driniaeth. Yn gynnar ym mis Awst collodd nerth yn ei fraich dde ond gyda phob ymweliad, ac ymhob ysgwydiad llaw teimlais y nerth yn dod nol i'w fraich a'i law. Roedd y gwellhad yn dod yn amlwg dydd ar ol dydd. Daeth y cryfder sydd yn gymaint rhan o gymeriad Glyn yn ol iddo.
Salm 77 "Gwaeddais yn uchel ar Dduw, a chlywodd fi"

BUGEILIO'R CLEIFION

Wyddoch chi bellach fod Sardis neu o leiaf y Gweinidog yn gyfrifol am ddau wasanaeth bob mis yn Ysbyty Dewi Sant ar y Graig am 4 pm pnawn Sul. Mae'r sylwadau a gynigir gan y cleifion yn fân ac yn amal. Maent yno oherwydd eu hafiechyd a hwnnw yn amrywio yn ei natur. Gofynnais i un o'r cleifion, cymeriad o'r enw Enid. "Ydych chi'n dod i'r gwasanaeth?", gofynnais iddi. Cafwyd "Na" go bendant. "Pam lai?" meddwn ninnau. "Dyw'ch eglwys chi ddim yn eglwys proper!!". Dewisais fod yn dawel gan daflu gwên nôl ati, a chauodd ei llygaid.

COLLI DONIAU O'R CAPEL

Testun siarad a sgwrs ymhlith yr aelodau a ffrindiau Sardis sydd yn dod i'r oedfa yw diflaniad sydyn y bobl ifanc o'r oedfa a'r Ysgol Sul.

Flwyddyn yn ol yr oedd o leiaf deg o bobl ifanc hardd yn eu lle yn yr oedfa yn cymryd rhan, yn enwedig oedfa Gymun. Bellach dim ond un neu ddau sy'n dod.

Ble mae'n nhw wedi mynd? Beth sydd wedi dod ohonynt?

Dywedir wrthyf eu bod yn mynd i'r ysgol ar ddydd Sadwrn a dydd Sul.

Does dim amheuaeth fod Ysgol Gyfun Rhydfelen yn un o'r ysgolion gorau yn y wlad. I mi - y gorau. Rwyf yn fawr fy nyled iddi fel ysgol. Addysgwyd fy meibion yno. Diolch yn fawr am y gwaith da, cywir a blaenllaw a wnaed gan yr ysgol ar hyd y blynyddoedd. Serch hynny ni chofiaf i'r plant fynd i'r ysgol ar ddydd Sadwrn arwahan i'r gem rygbi. Byth fynd yno ar y Sul.

Y cwestiwn rwy am ofyn ydyw; A ydyw yn deg i ddisgwyl i athrawon weithio saith diwrnod o'r wythnos? Mae Tesco a B&Q yn rhoi diwrnod neu ddau i ffwrdd am weithio ar y Sul. Mae'r alwad ar ein hathrawon yn ormod mi dybiaf.

Gwyliwch eich iechyd. Sut gall neb bara'n iach drwy weithio saith diwrnod yr wythnos. Gwn o brofiad wedi dysgu am bron ddeugain mlynedd a hynny dim ond pum diwrnod yr wythnos. Rwy'n gorfod bod yn ofalus iawn rhag colli'm llais o ganlyniad.

Pa bynnag Dduw sydd gennych, a honnir fod mwy nag un yn y byd, ni chlywais am un ohonynt mewn unrhyw wlad heb gymeradwyo diwrnod o orffwys, ac addoli yn dawel, er mwyn adfywio'r ysbryd a'r cnawd.

Hoff ddywediad fy Mam. "Cymer ofal o dy iechyd neu fe fyddi yn siwr o syffro." Nid oes lle gennyf gredu nad oedd Mam yn iawn.

Diolch i Dduw am ymroddiad ein hathrawon gweithgar a chydwybodol ond ar yr un pryd rowch gyfle i oedfa Bore Sul a'r Ysgol Sul.

Dywedwyd wrthyf nad oes un Capel Cymraeg i'r Gogledd o Bontypridd i fyny i ben y cymoedd ag Ysgol Sul ganddynt.

Caewyd pump ar hugain o gapeli Cymraeg a Saesneg yn y cylch yn y pum mlynedd diwethaf. Loes i mi a'r ffyddlon yn Sardis fyddai fod yn un o'r ffigyrau hynny yn y pum mlynedd nesaf, a hynny ac adeiladau mor braf gennym.

Tybiaf bydd angen Moses neu rhywun tebyg iddo i ddenu pobl ifanc yn ol i'r oedfa a'r Ysgo Sul ar ol yr arlwy danteithiol yn yr ysgol lle mae'r plant wrth eu bodd.

Bendith arnoch yn yr ysgolion ond cofiwch amdanom. Mae arnom eisiau eich help a'ch doniau a'ch ymroddiad yn Sardis ar fore Sul er sicrhau i'n plant i'r oes a ddel y glendid a fu.

Hywel Sardis

MYNEGI CYDYMDEIMLAD

Rhan o'r gwasanaeth yn Sardis ar Sul 19 Fedi oedd mynegu mewn geiriau dwys a theimladau pur ein cydymdeimlad â Mrs Winnie Davies, Heather View, Merthyr Road ar golli ei gwr, Norman Davies a thad Helen, Paul ac Anthony. Roedd Winnie yn yr oedfa yn ôl ei harfer. Dysgodd hithau Gymraeg a mawr y gwerthfawrogir ei hesiampl a'i gwaith cyson mewn pob math o gylchoedd i hybu'r iaith. Gwnaeth waith canmoladwy gyda'r R.S.P.C.A. a bu'n sywddog yn y gymdeithas.

Gwr tawel mwyn oedd Norman Davies, wedi dioddef afiechyd trwm ers 1980 a bu'n gaeth i'w gartref am flynyddoedd. Gŵr y teulu ydoedd. carai ei wraig Winnie a'i blant â chariad tawel, ymarferol, effeithiol a dioddefodd ei dostrwydd heb achwyn na chwerwder. Collodd Winnie gymar ffyddlon a chariadlawn a chollodd y plant Dad gofalus, gweithgar a chynorthwyol. Duw a fyddo'n bresennol iddynt i lenwi'r gwacter a adawyd ar ei ôl. Salm 73 "Yr wyf i gyda thi bob amser".

BLWYDDIADUR EISTEDDFODAU

Yn dilyn cyfarfod cyhoeddus ar faes prifwyl Ceredigion, Aberystwyth i gynrychiolwyr Eisteddfodau Cymru, gofynwyd i'r Eisteddfod Genedlaethol baratoi Blwyddiadur Eisteddfodau Cymru, i bontio rhwng Awst 93 ac Awst 94. Mae'n cynnwys manylion am yr holl Eisteddfodau ar hyd a lled y wlad, o Bontnewydd i Bonterwyd, ac o Borthcawl i Batagonia!

Mae'r blwyddiaduron ar gael yn awr yn rhad ac am ddim o Swyddfa'r Eisteddfod yng Nghaerdydd, felly peidiwch oedi rhag ein ffonio ar 0222 763777 i archebu copi.

CREIGIAU

Gohebydd Lleol: Sheila Dafis

PROFEDIGAETHAU
Cydymdeimlwn yn fawr â Helen Middleton a'r teulu, 55 Parc y Coed. Collodd Helen ei thad yn ddiweddar. Mae'n meddyliau hefyd gyda Peter Brooks a'r teulu, 3 Maes y Nant; collodd Peter yntau ei dad ar drothwy tymor yr hydref. Trist deall hefyd fod Mair Hughes, pennaeth adran Gymraeg yr ysgol, wedi colli brawd (New Fforest), ac athrawes arall, Judith James, wedi colli'i thad.

SYMUD TŶ
Mudodd Carwen ac Ian Jones o Maes y Nant yr holl ffordd .... i "Greenfield", Ffordd Caerdydd! Pob lwc iddyn nhw yn eu cartref newydd.

CROESO
Newydd-ddyfodiaid i Glos Llywelyn yw'r Athro a Mrs Gwynedd Pierce; croeso i'r Creigiau i chi'ch dau.

YSGOL Y CREIGIAU
Dymuniadau gorau i Nia Lewis, athrawes dosbarth 2, sy'n gadael ar hanner tymor am swydd llawn amser arall .... magu ei merch fach Mirain! Diolch ichi Nia am eich cyfraniad gwerthfawr ac annwyl i addysg ein plant. Bydd Diane Evans, sy'n wyneb cyfarwydd iawn i'r ysgol, yn llenwi'r bwlch nes penodir athrawes newydd.

CRYS COCH I OWAIN?
Chwaraewr ifanc sy'n parhau i greu cryn argraff ar feysydd rygbi prif gynghrair Heineken yw Owain Thomas, Parc Castell y Mynach. Agorodd ei dymor dros Gaerdydd gyda chais ardderchog yn erbyn Pontypridd. Digon o Weetabix iddo fo i frecwast, Gwen!

CYLCH TI A FI
Ar ôl galwad dro'n ôl am fwy o fabannod i ymuno â'r Cylch, mae pedair o'r mamau sy'n mynychu'n barod wedi gwirfoddoli! Llongyfarchiadau iddyn nhw, a diolch am sicrhau dyfydol y Cylch am flwyddyn neu ddwy ... Mae lle i fwy; croeso i eraill ymuno - ar brynhawn dydd Mawrth yn y Pafiliwn am 1.45.

NOSON Y CHWEDEGAU

Caryl a'r Band yn y Brunel Arms diwedd mis Medi

ACTIO YN Y GWAED
Bu Bethan Ellis Owen ar gwrs actio yn Aberystwyth ganol Awst am fis. Pwrpas y cwrs yw meithrin actorion a sgriptwyr ifanc addawol rhwng 16 ac 20 oed. I gloi'r cwrs cafwyd tair noson o berfformio drama ar y testun "cyfathrebu" a gyfansoddwyd gan y criw. Llongyfarchiadau, Bethan, ar gael dy ddewis o blith nifer o ymgeiswyr i fynychu'r cwrs.

RYGBI
Mae Garan Treharne, Parc Castell y Mynach wedi chwarae dwy gêm rygbi cyngrair ' yn ddiweddar yn erbyn Penarth a Thonyrefail.

HYFFORDDIANT A GYRFAOEDD

Nid arddangosfa arall yn unig fydd Job Scene Cymru, yr arddangosfa gyrfaoedd, addysg a hyfforddiant newydd i Gymru sy'n agor ei ddrysau ar 14 - 16 Hydref yn Arena Rhyngwladol Caerdydd. Yn ol y trefnydd, Tim Walsh, "Bydd Job Scene Cymru yn rhoi hwb i hyfforddi sgiliau a'r ymdrech i chwilio am waith drwy gynnig sesiynau hyffordi uniongyrchol, sioeau ffasiwn a mathau eraill o adloniant ochr yn ochr â stondinau arddangos. Rhan o atyniad yr achlysuron Job Scene yw'r llu o gyfleoedd i gymryd rhan ac i gael difyrrwch. Ni fydd Job Scene Cymru yn eithriad."

Mae'r mynediad i Job Scene Cymru am ddim ac fe fydd yr arddangosfa ar agor o 10am i 6pm ar y 14 a'r 15fed Hydref ac o 10am i 4pm ar ddydd Sadwrn yr 16fed Hydref.

LLANTRISANT

Gohebydd Lleol: Glenys Roberts

ADRAN YR URDD

Mae Adran Llantrisant wedi ailafael yn y gweithgareddau ar ôl seibiant yr haf. Croeso i bawb o oedran ysgol gynradd i ddod ar nosweithiau Mercher am 6.00 o'r gloch i'r Ysgol Gymraeg. Yn anffodus does neb ar gael ar hyn o bryd i redeg yr uwch-adran ar gyfer ieuenctid (oedran ysgol uwchradd). Os oes unrhyw un â diddordeb mewn bod yn arweinydd, byddai Llinos yn falch iawn o glywed gennych (228143).

CLWB DRAMA a.y.b.

Mae Clwb Drama a.y.b. hefyd wedi ailddechrau ar ôl yr haf a chafwyd penwythnos o hwyl a sbri i ddechrau'r tymor yng Nghwrt y Cadno, 17-19 Medi. Nod y penwythnos oedd gorffen ysgrifennu'r sgript ar gyfer perfformio (ac ennill, gobeithio) yng Ngŵyl Ddrama Tafod Elái. Er gwaethaf problemau gyda'r dŵr, y gwres, anwydydd, gorfod teithio ym mws mini Rhydfelem (o'r embaras!), taith gerdded o 15 milltir ar hyd llwybrau Twm Siôn Cati (dim ond 2 filltir yn ôl Danny, ond doedd neb yn ei gredu) cafodd pawb amser da. Diolch i Danny, Lowri a Medi am ofalu am y criw. Nawr mae pawb yn edrych ymlaen at weld y perfformiad.

Os oes unrhyw un (13-18 oed) â diddordeb mewn ymuno, mae'r Clwb yn cwrdd bob nos Lun o 7-9 o'r gloch yn yr Ysgol Gymraeg. Danny Grehan yw'r arweinydd.

LLONGYFARCHIADAU

● i bawb a lwyddodd yn yr arholiadau TGAU a Lefel 'A' yr haf yma. Pob hwyl i chi sy'n mynd i swyddi neu'n chwilio am swyddi, ac i'r rhai ohonoch sy'n gadael/wedi gadael am y colegau. Byddwn yn dilyn eich gyrfaoedd â diddordeb ac yn gobeithio cael ambell bwt i Tafod Elái yn awr ac yn y man.

● i Geraint Davies, 46 Clos Portreeve a fentrodd ei einioes trwy wneud 'naid bynji'(?) ar Slot Sadwrn yn ddiweddar dros elusen. Mae croeso i unrhyw un sydd am wneud hynny alw heibio i weld fideo a cheisio ei berswadio i neidio eto dros achos da arall!

CYDYMDEIMLO

Cydymdeimlwn â Geraint a Sara Davies a'r teulu, Tŷ Copi, y Groesfaen ar golli mam Geraint yn ddiweddar ar ôl gwaeledd hir.

ARFER DDA

Roedd degau a channoedd o blant Llantrisant yn gwybod hynny eisoes, ond bellach mae'n swyddogol - mae Mrs Treharne yn un o'r athrawon gorau yn y sir. Gwnaed fideo o nifer o athrawon Morgannwg Ganol wrth eu gwaith i'w defnyddio mewn sesiynau hyfforddi athrawon ac roedd Mrs Treharne yn un o sêr y fideo.

CYMDEITHAS GYMRAEG

Wedi llwyddiant noson Caryl a'r Band yn y Brunel ar 24 Medi, gobeithio y bydd nifer dda am ymuno â Chriw Cymdeithas Gymraeg Llantrisant a'r Cylch ar ymweliad theatr ganol Tachwedd ac i ddathlu'r Nadolig ar 10 Rhagfyr. Efallai nad yw'n rhy gynnar i'ch atgoffa hefyd am y gwasanaeth Plygain a gynhelir yn Flynyddol yn y Tabernacl, Pontyclun ar noswyl y Nadolig.

YN GALW GOHEBWYR IFANC

Byddai'n ddifyr cynnwys cyfweliad yn y golofn hon o dro i dro. Os oes unrhyw un yn awyddus i roi cynnig ar fod yn newyddiadurwr/wraig, ac yn barod i fynd i gael sgwrs â rhywun hen neu ifanc yn ardal Llantrisant sydd wedi gwneud rhywbeth diddorol, beth am roi gwybod?

PRIODAS

Soniwyd am briodas Nia a Mike y mis Diwethaf. Mae'n braf cael cynnwys llun y tro yma.

DEWCH I AIL FYW
OES AUR
Y DIWYDIANT GLO

Cewch gyfle i brofi bywyd mewn pwll glo yn y Rhondda dros y 150 mlynedd diwethaf gyda cyn-lowr fel arweinydd.

Mae cymeriad unigryw y Rhondda yn cael ei gyflwyn trwy lygaid tair cenhedlaeth un teulu glofaol.

Fe welwch olygfeydd, fe glywch synnau a chewch brofi arogleuon oes a fu, yn fyw o flaen eich llygaid.

AR AGOR 10 - 6
Dilynwch yr arwyddion ffordd o'r A470.Am fwy o fanylion cysylltwch a Mary Scourfield 0443 682036.

AUR DU
HANES GLO

Gorffennol gogoneddus ar gof a chadw

Cerdd tafod

gyda
Rhys Dafis

Y mis diwethaf, cawsom gwmni Kathleen Wood ac Illtyd Lewis, dau o feirdd y dosbarth ohonom sy'n cynhesu festri capel Bethlehem, Gwaelod y Garth bob nos Fawrth dros y gaeaf. Ar Hydref 12, mae'r dosbarth yn ail-danio, a bydd croeso i unrhywun sydd am ymuno.
Dau a ymunodd y llynedd ydi Hywel a Gwyneth Jeffreys, ac fel y gallwch chi weld, mae'r ddau yn cael cryn hwyl arni!

Ymson wrth i'r pregethwr weddio

Gariadus Dad, o entrych Nef,
Chwyth awel lon, a chwyth hi'n gref
Wrth ddewis bugail heno.

O côd fi fry o'm hisel stad
Ynghanol ffermwyr cul cefn gwlad
I foethau'r mans yn Nebo.

O Dad trugarog, diwall chwant
A'r dwymyn sy' yng Ngwen a'r plant
I symud yma i Nebo.

O gwared ni rhag dillad rhad
Y jymbl sêls ar hyd y wlad
I fyw ar gyflog Nebo.

Mor anodd, Dad, i ddyn o'm maint
Farchogaeth beic i swcro'r saint -
Cawn gar fel bugail Nebo.

Rho nerth i Gwen gnoi'i thafod ffraeth
A llyncu'i phoer rhwng nawr a saith
Rhag ffromi gwragedd Nebo.

O tywys fi i'r ddinas fras
I loywi'm dawn a chanu bas
Da'r organ wych sy'n Nebo.

Fy ngweddi clyw, plis, plis o Dduw,
Rwyn addo bod yn was bach triw
Os caf ddod yma i Nebo!

Hywel Jeffreys

Llongddrylliad y "Braer"

Hyll a hagr yw'r holl lygredd - a briwydd
Yw'r Braer mewn gwaeledd;
Llanw'r bocs mae lluniau'r bedd;
Gwylanod yn gelanedd.

Gwrthdystiad cig oen

Mynnu stranc mae "ein" Ffrancod, - hen gweryl
Sy'n gwyro pob cymod;
Eu bwrw nhw fydd y nôd, -
Y mae eisiau ymosod!

CYNHAEAF
Y GAEAF GYNT (parhad)

Argoel o wanwyn

Yn Ionawr, naws y gwanwyn - a heulwen
Yn wylaidd o addfwyn;
Golau brau yw yn y brwyn,
Ond eurliw yn y derlwyn.

Enwadaeth, trefn dyn ydyw

Pa ddiben mwy i enwad? - y ffiniau
Sy'n ffynnu, heb uniad;
I un man yn ddi-ymwâd
Anelwn ein haddoliad.

Gwyneth Jeffreys

Y mis nesa, cawn gynhaea gwahanol iawn; bydd **Tafod Eláí** yn llawn o gerddi ieuenctid ein hardal fu'n chwysu yng nghystadleuaeth Iolo Morganwg. Aelod arall o'r dosbarth yw'r beirniad eleni, sef Ynyr Williams a ddaeth yn agos iawn at gipio'r goron yn Llanelwedd. Tro nesa, Ynyr....

CYSTADLEUAETH
IOLO MORGANWG 1993

Cystadleuaeth i ddisgyblion ysgolion uwchradd yr ardal.

Blwyddyn 7:	Cerdd	" DISGO "
Blwyddyn 8 a 9:	Cerdd	" UNIGRWYDD "
Blwyddyn 10 ac 11:	Cerdd	" LLYGREDD "
Blwyddyn 12 a 13:	Cerdd	" LLAIS "
Blwyddyn 10 11 12 ac 13:	Telyneg	" CLO "

Dyddiad cau: Hydref 13, 1993

Anfonwch eich cynnyrch at:

Cystadleuaeth Iolo Morganwg
48 Parc y Coed
Y Creigiau
Canol Morgannwg
CF 4 8 LY

EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol: Loreen Williams

CYDYMDEIMLO

Estynnwn ein cydymdeimlad â Mrs Laura Richards, 51 Penywaun a gollodd ei brawd yn ystod mis Awst. Roedd ei brawd yn frodor o Gefneithin.

Cydymdeimlwn hefyd â Miss Edna Lewis, Gellideg, 21 Penywaun a hithau wedi colli ei brawd, Alex yn ddiweddar.

Yn ystod mis Awst hefyd bu farw Mrs Stanley Jones, gweddw'r Parchedig Stanley Jones a fu'n weinidog yn Y Tabernacl o 1925 hyd 1953. Estynnwn ein cydymdeimlad i'w mab, Mr Geraint Stanley Jones a'r teulu.

CROESO

Croeso mawr i Mr a Mrs John Llywelyn Thomas, Ruth, Gethin ac Owain i'r Efail Isaf. Fe symudodd y teulu o'r Wyddgrug i Efail Isaf yn ystod gwyliau'r Haf ac maent wedi ymgartrefu yn Yr Hafan a stâd Nantcelyn.

DYMUNIADAU DA

Dymunwn adferiad iechyd buan i Mrs Cynthia Phillips, 17 Penywaun sydd wedi bod yn derbyn triniaeth lawfeddygol yn Ysgbyty Brenhinol Caerdydd yn ddiweddar.

Dymunwn yn dda i Mrs Beti James, Heol y Ffynnon a hithau hefyd wedi bod yn wael ei hiechyd yn ystod y misoedd olaf yma.

SWYDDI NEWYDD

Dymuniadau gorau i Rhian Watkins, Brynawel, Heol y Parc yn ei swydd newydd. Mae wedi ei phenodi gan Bwyllgor Sir Hampshire i weithio yn archifdy Caer-wynt (Winchester). Pob hwyl i ti Rhian.

Dymunwn yn dda i Gwion Rees, mab Y Parchedig Eirian ag Ann Rees yn ei swydd newydd yn bennaeth adran y Gymraeg yn Ysgol Gyfun Pontypŵl.

Y TABERNACL

Braf oedd cael croesawu Mrs Aneira Davies, Plasgwyn, Tonteg yn ôl i'r oedfa ar ôl cyfnod o absenoldeb pan fu'n derbyn triniaeth go egr ar ei chefn yn Ysbyty Brenhinol Gwent. Croesawyd Mr Asquith Morgan, 22 Penywaun yn aelod yn yr Oedfa Gymun fore Sul y pumed o Fedi.

Llun: Malcolm Griffiths.

FFAIR Y PENTRE

Cafwyd diwrnod o awyr las a heulwen braf ynghanol cyfnod o dywydd digon stormus i gynnal Ffair y Pentre yn yr Efail Isaf ar Ddydd Sadwrn, Medi 11ed. Bu gwerthu a phrynu brwd yn Neuadd y Pentre a'r plant yn mwynhau tipyn o hwyl ar y cae yn ystod y prynhawn. Daeth tyrfa ynghyd i gefnogi'r fenter a bydd yr elw'n cael ei drosglwyddo i goffrau Bobath Cymru a Chanolfan Ddydd ar gyfer dioddefwyr y clefyd Altzheimer's yn Nhonteg.

Uchafbwynt y prynhawn oedd y gystadleuaeth newydd o "dynnu'r gelyn". Cystadleuaeth newydd arall eleni oedd y cyflwyniad gorau o gynnyrch gardd. Beirniad y gystadleuaeth oedd Andrew Dixey o Rydfelen a'r enillydd oedd Sid Davies, 12 Ffordd y Capel.

Gwelir ef yma yn derbyn cwpan Canolfan Arddio Brook Farm oddi wrth Mr D. Simmonds, perchennog y Ganolfan.

COLEG

Dymunwn yn dda i'r myfyrwyr o'r pentref sydd yn dychwelyd i'r colegau ar ôl gwyliau'r Haf, a'r rhai sydd yn mynd am y tro cyntaf; Heulyn Rees, 51 Penywaun sydd yn mynd i Goleg y Brifysgol yn Llanbedr Pont Steffan a David Williams, Heol Tir Coch sydd yn dechrau ar gwrs yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin. Bydd Andrew Williamson, 33 Heol y Parc hefyd yn dechrau ar gwrs addysg yng Ngholeg Caerllion. Llongyfarchiadau i Andrew ar ddysgu Cymraeg yng Ngholeg Llanbedr yn ystod gwyliau'r haf.

SIOP BARA Y PENTREF

Heol St Illtyd,
Pentre'r Eglwys

Bara a chacennau wedi eu pobi yn y siop mewn ffwrn draddodiadol.

Mrs Janet Evans

0443 202013

Trefnir Arlwyo

SWYDDFA'R POST TONTEG

Perchnogion: Bill a Thelma Cook



Dewis Helaeth o Gardiau Cymraeg at bob achlysur

(Penblwydd, Priodas, Gwellhad, a.y.b.)

GALWCH HEIBIO I'N GWELD

PENTYRCH

Gohebydd Lleol: Eleri Jones

TGAU
Llongyfarchiadau i bawb fu'n llwyddiannus yn eu arholiadau TGAU a phob hwyl yn y chweched dosbarth neu yn y byd mawr tu fas.

YMLAEN I'R COLEG
Llongyfarchiadau hefyd i'r disgyblion hynny oedd yn sefyll arholiadau Lefel 'A' a'n dymuniadau gorau iddynt ar ddechrau eu cyrsiau yn y gwahanol Brifysgolion. Bydd Lisa Mair Williams yn mynd i Abertawe, Eirian Davies i Fangor, Betsan Thomas i Gaerfaddon a Catrin Devonald i Loughborough. Dymunwn yn dda hefyd i Catrin Roberts sydd ar ôl graddio yn Aberystwyth yn aros gartre ac yn dechrau ar gwrs yn y gyfraith ym Mhrifysgol Morgannwg.

BLWYDDYN YN FFRAINC
Pob hwyl i Carys Wynne a fydd yn treulio blwyddyn yn ardal Jura yn Ffrainc fel rhan o'i chwrs Ffrangeg yn y Brifysgol ym Mangor.

CROESO ADREF
Croeso cynnes i'r pentref ac yn ôl i'r ardal i Mr Bazil Davies, cyn-brifathro Ysgol Gynradd Creigiau, a'i briod sydd ers rhai misoedd wedi ymgartrefu ym Mhenywaun.

SYMUD YSGOL
Llongyfarchiadau i Dewi Hughes, Maesysarn ar ei benodiad yn brifathro Ysgol Gymraeg Santes Tudful ym Merthyr. Mae ar hyn o bryd yn brifathro yn Nhrefforest a bydd yn ymgymryd â'i ddyletswyddau newydd ar ôl hanner tymor.

GWELLHAD BUAN
Bu'n rhaid i Alun Thomas, Talgarth, ac Eirian Davies, Sycharth, dreulio cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar. Pob dymuniad da i chi!

PRIODASAU
Roedd Medi'r 4ydd yn ddiwrnod poblogaidd i briodi! Llongyfarchiadau a'n dymuniadau gorau i Rhiannon Davies, Cefn Llan, ar ei phriodas yn Eglwys Sant Catwg â Paul Hooper. Hefyd i Simon Board, Dan yr Odyn, ar ei briodas â Sarah Howells yn Eglwys Bedwas.



Tair cenhinen fuddugol
Penri Williams yn Sioe Pentyrch

SIOE PENTYRCH
Bu sioe Pentyrch unwaith eto'n llwyddiannus a rhaid llongyfarch y Golygydd ar ei lwyddiant nodedig yn cipio'r wobr gyntaf am y cennin gorau! Llongyfarchiadau i un arall o'n darllenwyr, Mrs Gwladys Berry a enillodd nifer o wobrau yn yr adran goginio gan gynnwys y wobr gyntaf am bice ar y maen. (Mae'n argoeli'n dda ar gyfer dathlu Gŵyl Ddewi!) Roedd yn dda gweld ein darllenwyr ifanc hefyd yn cystadlu ac yn ennill cynifer o gystadlaethau. Da iawn, chi!
Addurno Cacennau: 1af Suzanna Young, 2il Lucy Young. Cynllun o Barc ar hambwrdd: 1af Lucy Young, 3ydd Suzanna Young. Trefniant blodau: 2il Cerian Hughes, 3ydd Suzanne Young. Darlun wedi'i greu o flodau sych: 1af Catrin Rees. Anghenfil allan o ffrwythau a llysiau: 1af Catrin Rees, 3ydd Deri Hughes. Ŵy wedi'i addurno: 1af Catrin Rees, 3ydd Cerian Hughes. Llong ofod allan o ddefnyddiau'r tŷ: 3ydd Cerian Hughes. Ffotograffiaeth: 1af Nicola Davies, 2il John Davies, 3ydd Deri Hughes. Peintio: 1af Catrin Rees, 3ydd Cerian Hughes. Llawysgrifen: 1af Deri Hughes, 2il Nicola Davies.

CLWB Y DWRLYN
Bu noson agoriadol Clwb y Dwrlyn yn un llwyddiannus a chofiadwy. Roedd yr ystafell yn y King's Arms dan ei sang a braint oedd cael croesawu John Ogwen a Maureen Rhys i'n plith i'n diddanu.

SYMUD TŶ
Symudodd Dennis, Luned a Sioned Scott o'r pentref yn ystod gwyliau'r haf. Dymunwn yn dda iddynt yn eu cartref newydd ym Meisgyn.

YR YSGOL FEITHRIN
Diolch i bawb sydd yn dal i gynorthwyo'r Ysgol Feithrin drwy brynu tocynnau Tesco. Os hoffech gefnogi'r fenter, ffoniwch Ann Hughes ar 892038 am ragor o wybodaeth.

Dymuniadau gorau i Mrs Kim Hillier, arweinyddes y cylch sydd yn ein gadael ar ôl wyth mlynedd o waith brwdfrydig a ffyddlon. Bydd y plant, "Anti Sandra" a'r rhieni i gyd yn gweld ei heisiau.

GENEDIGAETH
Ein dymuniadau gorau i Gareth a Nêst Evans, Clawdd Shôn ar enedigaeth mab, Owain, ddechrau Awst.

Menter Taf Elái
CLWB CERDDED TAF ELÁI
Cwrdd: 2.30 p.m. Dydd Sul
17 Hydref
yn Castell Candleston,
Merthyr Mawr ger
Penybont.
(O.S. 872 773)
Taith i'r môr dros y twyni tywod (tua 3 milltor i gyd).
Croeso i bawb.
Manylion pellach:
0222 891353

MENTER Taf Elái

EHANGU IAITH GWAITH

Yn barod mae nifer o gwmniau yn yr ardal wedi ymuno yng nghynllun Iaith Gwaith Menter Taf Elái ac yn arddangos bathodynnau, arwyddion a sticeri y cynllun. Y bwriad nawr yw ehangu'r cynllun drwy ofyn i holl ddarllenwyr Tafod Elái gasglu gwybodaeth am bob siop a swyddfa sydd yn gallu rhoi gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

Pwrpas y cynllun ydi tynnu sylw at bobl sydd yn gallu cynnig gwasanaeth yn y Gymraeg boed mewn siop neu swyddfa neu unrhywle sydd yn agored i'r cyhoedd. Mae'r cynllun yn arbennig o addas at ardal fel Taf Elái lle mae miloedd o bobl yn gallu siarad Cymraeg ond eu bod nhw fel arfer mewn môr o Seisnigrwydd.

Mae dau ffordd i gynorthwyo yn y cynllun -

a. Gellwch gasglu rhestr o'r siopau neu gwasanaethau yn yr ardal sydd â siaradwyr Cymraeg.

b. Gellwch dderbyn cyflenwad o'r bathodynnau a sticeri a pamffled sy'n egluro'r cynllun i'w roi i busnesau addas.

Danfonwch unrhyw wybodaeth a chewch manylion oddi wrth Steffan Webb, Swyddog Datblygu Menter Taf Elái.

Yn aml iawn mae cysylltiad personol yn bwysig gyda chynllun o'r fath ac mae pobl yn fodlon gwrando ar gyfaill neu gydnabod lle na fyddan nhw ddim yn ymateb i lythyr gan ddieithryn. Helpwch ni, os gwelwch yn dda, i ychwanegu at Gymreictod yr ardal drwy ymestyn y cynllun hwn.

PARTI PENBLWYDD Y FENTER

Mae dros blwyddyn wedi mynd ers sefydlu Menter Taf Elái ac nawr mae'n amser cloriannu gwaith y mudiad ac ystyried cynlluniau newydd ar gyfer y dyfodol. Cynhelir y cyfarfod blynyddol yn y Brunel Arms am 7.30, Nos Wener, 15 Hydref ac i ddilyn am 9.00 bydd noson o hwyl a adloniant yng nghwmni Dafydd Hywel a Sue Roderick. Tocynnau £3.00

BOWLIO DEG

Ar 6ed o Hydref bydd yr ail ornest yn y gyfres Bowlio Deg a drefnwyd gan y Fenter. Unwaith eto disgwylir criw i gystadlu yn y ganolfan yn Nhonyrefail am 6.30. Mae croeso i griw neu gymdeithas ffurfio tîm ar gyfer yr ornest.

COLLI PWYSAU

Ydych chi wedi colli pwysau drwy mynychu Slimming World neu Weight Watchers? Oes diddordeb gyda chi mewn rhedeg Clwb Colli Pwysau Cymraeg? Cysylltwch â Swyddog Datblygu Menter Taf Elái - 0443 226386.

DEG SY'N GWEITHREDU IAITH GWAITH

Church Village Travel
Ysgol Foduro Hawthorn
Cartŵn Cymru
Ysgol Gyfun Bryncelynnog
Cat's Whiskers, Tonysguboriau
Swyddfa'r Post, Tonteg
Banc Lloyds, Pontyclun
Canolfan Iechyd Tonyrefail
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol
Morgannwg Ganol
C&D Evans (Cwmni Glanhawyr)
Tonysguboriau.

CYHOEDDUSRWYDD I'R FENTER

Dosbarthwyd 35,000 o daflenni i bob cartref yn esbonio gwaith ac amcanion Menter Taf Elai yn ystod mis Medi. Mae'r daflen yn cynnwys cerdyn i'w ddanfon yn ôl bydd yn cael ei ddefnyddio mewn raffl ym mharti penblwydd y Fenter. Felly cofiwch ddanfon eich cardiau yn ol. Bydd enillydd y raffl yn cael teledu lliw.

GIG HYDREF
gyda
Enaid Coll
a Clint a'r Clawdd
yng Nghlwb y Bont
8.00 Nos Sadwrn,
9 Hydref.
Tocynnau £2.50

CHWARAEON

Bydd nifer o chwaraeon drwy gyfrwng y Gymraeg yn cychwyn ar ôl hanner tymor yn Llantrisant a Phontypridd. Ar nos Fawrth, 9fed Tachwedd bydd Gwersi Nofio yng Nghanolfan Hamdden Llantrisant o 6.00 i 6.45 i blant oedran cynradd. Yna o 7.00 i 9.00 byd gwersi Karate.

Bydd clybiau pêl-rwyd, hoci a phêl droed yn dechrau ym Mhontypridd yr un wythnos - mwy o fanylion cyn bo hir.

PARTI'R FENTER
yng nghwmni
Dafydd Hywel a Sue Roderick
9.00 p.m. Nos Wener,
15 Hydref.
Brunel Arms, Pontyclun.
Tocynnau £3

MENTER Taf Elái
BRÊC HANNER TYMOR
26 - 31 Hydref
yn Nant Gwrtheyrn
£32 i oedolion
£20 i blant
Bws Mini am ddim
Ffon: 0443 485838

TAITH Y MEIRWON

Mae Taith y Meirwon mor anturus a'r ffilm 'Invaders of the Lost Ark'. Roedd yn rhaid i'r person marw fynd ar siwrnai beryglus heibio sarff anferth a cHrocodeil. Trio peidio cael ei ddal mewn rhwyd bysgota, a thân, a cheisio dianc rhag cael torri ei ben i ffwrdd. Ar ôl cyrraedd y byd arall, roedd y duw Anubis yn pwyso ei galon gyda pluen. Os oedd yn berson da byddai'n cael ei groesawu gan Osiris, os na fyddent yn ddigon da, byddai'r anghenfil yn eu fwyta!

Fyddwn i ddim yn hoffi mynd ar y daith yma byth!

Rebecca Smith
Blwyddyn 5

MELLTITH Y PHARO

"Y sawl a darfu fedd y Pharo fe ddaw angau iddo ar adain gyflym, chwim"

Mae llawer o bobl yn credu fod 'Melltith y Pharo' wedi lladd Arglwydd Caernarfon. Cafodd ei bigo gan bryfed wrth agor y bedd. Roedd ei gi ffyddlon wedi marw hefyd yn Lloegr ac aeth goleuadau Cairo allan i gyd. Mae nhw'n dweud bod dau ddeg dau o bobl wedi marw erbyn 1929, pobl oedd yn gweithio ar fedd Tutankamun yn yr Aifft.

Rydw i yn credu yn "Melltith y Pharo".

Huw Reeves
Blwyddyn 4

YR HEIROGLYFFIAU

Mae lluniau ar waliau yn yr Aifft. Mae'r lluniau yn llythrennau yr un fath a'n gwyddor ni. Gallwn wneud geiriau allan o'r heiroglyffiau. Dyma rai o'n geiriau ni.

Geraint Rees
Blwyddyn 4

MWGWD AUR TUTANKHAMUN

Aimee Hughes
Blwyddyn 4

BATIK

Un o weithgareddau'r tymor yma oedd printio ar gotwm. Fe wnaeth fy ngrŵp i Batik. Yn gyntaf roedd rhaid cynnau'r gannwyll a meddalu'r cwyr. Pan roedd y cwyr yn barod roeddwn yn gadael iddo ddripian dros y cotwm a chreu patrymau. Ar ôl i'r cwyr sychu roeddwn yn rhoi'r darn o gotwm yn wlyb mewn sosban â sudd croen winwns wedi berwi ynddo fe. Diwrnod wedyn roedd y cotwm wedi ei liwio'n felyn. Rhoddon ni y cotwm i sychu allan yn yr haul. I orffen roedd rhaid i ni bigo'r cwyr oddi ar y cotwm. Roedd patrymau gwyn ar ôl.

Elise Ward
Blwyddyn 4

YSGOL HEOL-Y-CELYN

DILLAD

Thema'r dosbarth y tymor yma yw Dillad. Rydyn ni wedi ymweld â'r Oriel Wisgoedd yn Sain Ffagan. Rydych chi'n gallu gweld sut mae gwisgoedd wedi newid yno. Roedd y gwisgoedd yn fwy urddasol canrif yn ôl. Roedd y merched i gyd yn gwisgo ffrogiau, dim jîns a sgertiau mini fel rydyn ni'n gwisgo. Fy hoff ffrog i oedd yr un hir gwyn a frill ddu arni wedi ei gwneud allan o gotwn a sidan.

Andrea Newton
Blwyddyn 3

SALEM

Un diwrnod roedd yna fenyw o'r enw Siân Owen. Roedd hi'n byw ar fferm o'r enw Ty'n y Fawnog. Roedd hi'n mynd i'r capel bob dydd Sul. Roedd dydd Sul yn ddiwrnod pwysig iawn i'r Cymry. Un dydd daeth dyn i'r pentref o'r enw Curnow Vosper i dynnu llun o Gapel Salem gyda Siân Owen fel y prif gymeriad. Roedd rhaid i Siân Owen fenthyg dillad ar gyfer yr achlysur. Mae nhw'n dweud eich bod yn gallu gweld gwyneb y diafol yn ei siôl hi.

Claire Lewis
Blwyddyn 3

TUDALEN YR YSGOL

AR LAN Y MÔR

Blwyddyn 2

Haiku

Daergryn anferth
Yn swnllyd a dychrynllyd
Wrth ysgwyd ein byd.

Emma Williams

LLOSGFYNYDD

Llosgfynydd lloerig
Oedd yn ein byd
Saethodd y lafa poeth allan,
Goleuodd y lliwiau tywyll y ddaear
Fflamau yn saethu pob man.
Yna mwg tew yn cylchynu'r lle.
Nwyon gwenwynig
Yn llenwi'r awyr llwyd
Ddoe, yn ein byd.

Richard Harris
Blwyddyn 6

Ffurfiwyd y byd gyda fflam mawr o dân,
Doedd dim byd i'w glywed yn unman
Ond yn sydyn dyna glec anhygoel
Sŵn llosgfynyddoedd yn codi o'r ddaear
Daeth y glaw i lawr
A llenwi tri chwarter o'r byd
Siglodd daeargrynfeydd dychrynllyd
Ein byd yn ôl ac ymlaen

Karen Newton
Blwyddyn 6

Mae Mam yn hofi llong tanfor. Mae Dad yn hefyd. Un dydd roedd Mam a Dad yn mynd ar long tonfor ac mae Sarah yn dod hefyd. Ni yn mynd lawr. Nawr edrych ar y pysgodyn a'r octopws. Ie ni yn gallu gweld popeth. Mae cranc allan fyna hefyd.

Sarah Crockett.

Y CAWR AR LAN Y MÔR

Mae cawr yn byw ar lan y môr mewn castell mawr. Un diwrnod fe aeth y cawr lawr i'r môr gyda rhaw ac mae'r cawr yn dechrau tyllu yn y tywod melyn. Yn sydyn mae'r cawr yn gweld aur o dan y tywod. "O, mae'r aur yn hardd hardd iawn", meddai'r cawr. "Rydw i yn hapus iawn". A dyna diwedd y stori.

Amy Jones.

Rydw i'n hoffi chwarae yn y dŵr, yn nofio a dawnsio yn y môr hefyd. A rydw i'n hoffi helpu Mam a Dad a chwarae yn y tywod a gwneud castell tywod a casglu cregyn a mynd i'r ffair.

Ashley Davies.

Un tro roedd bachgen o'r enw Huw a roedd e yn mynd i lan y môr gyda Mam a Dad ar y bws. Cyn mynd ar y bws roedd Huw wedi anghofio ei bêl ac mae Mam yn galw ar Huw i ddod i mewn i'r bws.

Mae Huw yn mynd allan o'r bws gyda Mam a Dad ac mae Huw yn clywed y ffair ac mae Huw yn mynd ar y ffair a roedd Huw wedi ennill Tedi.

Hayley Reeves.

Fe es i ar lan y môr gyda fy Mam a Dad a ni wedi mynd i gasglu cregyn i'n athrawes achos ni yn sôn am lan y môr. A dyma ni nawr yn casglu cregyn ac mae Mam yn dweud "Wyt ti eisiau hufen iâ". "Ydw" meddwn i. Ac ni yn mynd yn ôl i'r dŵr a tywod. A dyma Mam gyda lolipop ni.

Carys Ashcroft.

Katie Ridge



Matthew Jerrard

Gareth Bunn
Dosbarth Meithrin

TUDALEN Y PLANT

SYM-BOLAU

9		6		4	=	11
8		2		1	=	17
7		5		3	=	6
6		2		4	=	12
5		5		10	=	15
4		8		2	=	14

Mae'r + - x a'r ÷ ar goll yn y symiau uchod - gosodwch nhw yn eu lle cywir.

Sawl petryal sy' yma?



CYSTADLEUAETH GŴYL DDEWI

MEITHRIN/DERBYN
Peintio gyda sbwng
neu
Chwythu paent trwy welltyn i wneud llun.

BLWYDDYN 1
Ysgrifennu brawddeg/au am "Rala Rwdins"
neu
Gwneud cerdyn addurniedig gyda'u enw i roi ar ddrws eu hystafell.

BLWYDDYN 2
Ysgrifennu am "Fy hoff raglen deledu"
neu
Copio llun enwog

BLWYDDYN 3
Ysgrifennu cerdd/paragraff/brawddegau "Mae'n gas gen i ...."
neu
Creu patrwm wedi ei brintio gyda unrhyw wrthrychau e.e. sbwng, brwsh, llysiau, a.y.b.

BLWYDDYN 4
Ysgrifennu llythyr at "John Major" neu eich athro/athrawes.
neu
"Lliwiau" - unrhyw gyfrwng.

BLWYDDYN 5
Ysgrifennu am "Y Bwli"
neu
"Y machlud" - unrhyw gyfrwng.

tafod elái

BLWYDDYN 6
LLunio cerdd (odl neu rydd) "Ofn"
neu
Printio (gellir defnyddio unrhyw gyfrwng i brintio - spwng, stencils, llysiau a.y.b.) - hunan ddewisiad.

Cynhelir y gystadleuaeth eleni eto yn ystod Tymor yr Hydref

AMODAU

1. Rhaid i'r ymgeiswyr gystadlu yn eu hadrannau oedran cywir.
2. Rhaid nodi enw, oed, dosbarth a chyfeiriad cartref neu ysgol.
3. Rhaid i bob cynnyrch fod yn waith dilys y plentyn.
4. A3 yw'r maint mwyaf o bapur neu gerdyn a dderbynnir er mwyn hwyluso cludiant a pharchu gwaith y plant.
5. Ni dderbynnir unrhyw gynnyrch ar ôl y dyddiad cau sef:-

Dydd Gwener, 26 Tachwedd 1993.

Anfoner pob cynnyrch i:-

Tafod Elái
Nawdd-dir
Heol Coedpenmaen
Trallwng
Pontypridd
CF37 4LR



Diolch i Sam Thomas am ddanfon llun crayon lliw o'i wyliau yng Nghredigion.

MERCHED BECA YN Y FRO

Canrif a hanner yn ol i eleni roedd Terfysgoedd Rebecca yn eu hanterth yn Ne Cymru. Tollau dychrynllyd ar heolydd yr ardal oedd y rheswm dros y gwrthryfel a gychwynnodd yn ardal yr Efail Wen yn Sir Benfro.

Ar ddechrau'r ddeunawfed ganrif dim ond llwybrau garw oedd y rhan fwyaf o'r ffyrdd yng Nghymru. Roedd trigolion bob plwyf â'r cyfrifoldeb am gynnal a chadw'r ffyrdd ond rhan amlaf roedd y ffyrdd a'r llwybrau mewn cyflwr truenus gan wneud teithio a symud anifeiliaid yn waith anodd ac araf.

Pasiwyd deddf ar ganol y ddeunawfed ganrif i ganiatau sefydlu "Turnpike Trusts" i fod yn gyfrifol am rai heolydd arbennig. Datblygodd yr ymddiriedolaethau turpeg i bob rhan o'r ardal hon ac yn eu sgil daeth nifer o doll-byrth i gasglu arian oddi wrth teithwyr. Er fod cerddwyr a mulod yn cael teithio am ddim roedd rhaid talu rhwng un a chwe cheiniog am geffyl neu ceffyl a chart a deu-swllt am beiriant ager.

Yn Nhaf Elái roedd toll-byrth yn Llantrisant, Pontypridd, Nantgarw, Groesfaen, Pontyclun a Thonyrefail ac yn aml roedd yn rhaid i ffermwyr dalu dau neu dri toll wrth fynd ag anifeiliad i'r farchnad. Roedd ymddiriedolaeth Llantrisant yn gyfrifol am 39 milltir o ffordd, a sefydlwyd wyth toll-borth.

Dechreuodd y gwrthryfela yn Sir Benfro yn enw Merched Beca. Ceir adroddiadau o'r ymgyrch ym mhapurau Llundain y cyfnod - The Times, Awst 4, 1843 "Mae'r ffermwyr yn cwyno am natur gorthrymus y tollau yn arbennig ar y ffyrdd plwyf a fabwysiadwyd gan yr ymddiriedolaethau gan osod toll-byrth arnynt, ac yna gofyn i'r plwyfi i'w cynnal."

Yn "Yr Haul" o'r cyfnod ceir y dyfyniad canlynol - *"Pwy ydyw Beca? a pha beth ydyw Beca? ydynt ofyniadau a osodir gan y naill i'r llall yn fynych iawn yn y dyddiau presennol. Nid un person, ac nid dau berson neu bersones, ydyw Beca; ond ysbryd rebeldod, yr hwn sydd yn gweithio ym mhlant anufudd-dod.*

A ydyw dynion yn cael eu gwasgu yn anghyfiawn gan y Gates, sydd fater na wyddom ni ddim yn y byd yn ei gylch; ond y mae Becayddiaeth, fel y mae yn cael ei gario ym mlaen yn bresennol, wedi rhoddi peiriant mewn gweithrediad, ag a fydd yn sicr o ddryllio holl rwymynnau cymdeithas, oni ellir ryw fodd neu gilydd osod atalfa ar ei droellau presennol. Nid wedi cymeryd y gyfraith i'w dwylaw eu hunain y mae y ffermwyr, ond wedi cymeryd y gallu i'w dwylaw eu hunain i draws-arglwyddiaethu ar y gyfraith, ac i roddi pob cyfraith heibio, pan fyddo hynny yn ateb eu dibenion."

Roedd teimladau cryf iawn yn ardal Pontypridd am y tollau uchel ac yn ôl yr adroddiadau dymchwelwyd nifer o doll-byrth yn ystod y gwrthryfel.

Sefydlwyd Comisiwn Brenhinol ym mis Hydref 1843 i ymchwilio i achos y terfysgoedd ac mae ei adroddiadau yn dangos difrifoldeb y sefyllfa:

A dynnwyd gât Cross Vane i ffwrdd?
Do, fe distriwyd.
Ai gât ar y mynediad i'ch ymddiriedolaeth, tua chwe milltir o Gaerdydd?
Ie rhyw chwe neu saith milltir rhwng Caerdydd a Llantrisant.
A gosbwyd unrhyw un am hynny?
Ni ddargnfuwyd hwy; ac fe falwyd Gât y Capel a'r byrddau toll.
A falwyd y byrddau toll yn y Newbridge hefyd?
Credaf fod un wedi ei hollti.
Pryd malwyd y tri gât yn ardal Llantrisant?
Tua chwe wythnos yn ôl.
A ail-osodwyd y gatiau?
Na ond gosdwyd cadwyn ar Gât y Capel.
Yn Cross Vane?
Na.
A gesglir tollau yn Cross Vane?
Ie. Fe hawlir tollau yn gyson ond mae llawer yn mynd trwodd heb dalu. Mae rhai yn talu a rhai ddim.
Ers pryd bu gât yna?
Am tua chwe neu saith mlynedd.

Adeiladwyd tollty Southgate, Llantrisant yn 1785.

BECA YN Y FRO

(Parhad)

Ac fe fu llawer o wrthwynebiad iddo, onide?

Na dim ond yn ddiweddar. Ni chlywais unrhyw gŵyn cyn hynny.

A ddygir unrhywun sy'n gwrthod talu o flaen yr Ynadon?

Ddim eto, ond fe gedwir rhestr ohonynt. Disgwylir cael gwared o'r toll ar 1 Ionawr 1844.

Fe gesglir toll ar gât arall a elwir Pontclun?

Mae hynny am turnpeg arall rhwng Llantrisant a'r Bontfaen yn Ymddiriedolaeth Llantrisant.

Rhoddwyd tystiolaeth gan fasnachwr o Bontypridd i'r comisiynwyr. Roedd yn prynu planhigion a phethau i'r ardd yn Llandaf i'w hailwerthu. Wrth fynd a'i asyn o Newbridge (Pontypridd) i Landaf talai 6 cheiniog i Ymddiriedolaeth Llantrisant yn gatiau Crossbrook, rhyw 300 llath o'i dŷ. Yna ar ôl croesi pont Christopher James a mynd ar Ffordd Merthyr mae'n talu 9d wrth Wern-y-cergyn Chain. Yna rhyw chwe milltir i lawr y cwm yn Tongwrddlas (Tongwynlais) mae'n talu 9d arall. Ac ar ben y daith yn Llandaf mae'n rhaid talu 6d i Ymddiriedolaeth Caerdydd. Doedd dim angen talu ar y ffordd yn ôl os oedd yn dychwelyd ar yr un diwrnod.

Oherwydd y dystiolaeth a roddwyd i'r Comisiwn pasiwyd deddf newydd gan y Llywodraeth ym mis Awst 1844 er mwyn ffurfio Bwrdd Heolydd ym mhob un o siroedd deheudir Cymru (ac eithrio Sir Fynwy) i reoli tollbyrth ac i osod prisiau teg a rhesymol am eu defnyddio. O ganlyniad yr oedd safon heolydd y de, erbyn pumdegau y ganrif diwethaf yn well nag yn unrhyw rhan arall o Brydain.

LLANILLTUD FAERDREF

Gohebydd Lleol: Gillian Pike

CROESO

Croeso mawr iawn i Mrs Phoebe Thomas sydd newydd ddod i fyw i'r ardal. Un o Sir Benfro yw hi ac yn fam i Mrs Loreen Williams, Efail Isaf.

CANLYNIADAU CAMPUS

Llongyfarchiadau i blant yr ardal ar gael canlyniadau campus yn yr arholiadau TGAU a Safon A.

MYND I'R COLEG

Dymunwn yn dda i Matthew Lloyd fydd yn dilyn Cwrs Sylfaen yng Ngholeg Celfyddyd a Dylunio, Morgannwg Ganol ym Mhontypridd ac i Neilson Smith sy'n mynd i Gaerwrangon i wneud ymarfer dysgu.

YSGOL GARTH OLWG

CROESO

Estynnir croeso cynnes iawn yn ôl ar ôl gwyliau'r haf i'r athrawon a'r plant, a chroeso arbennig hefyd i'r rhieni a'r plant newydd sydd yn dechrau yng Ngarth Olwg ar ôl cyfnod yn un o'r tair ysgol feithrin.

DARLLENWYR O FRI

Yn ystod yr wythnos Medi 13 - 17 bu plant Blwyddyn 6 yn brysur yn ymuno mewn gaeithgareddau ennyn diddordeb mewn llyfrau a'r llyfrgell. Trefnwyd yr wythnos "Llyfrau i Blant" gan Lyfrgell Pentre'r Eglwys.

TONTEG A PHENTRE'R EGLWYS

Gohebydd Lleol: Helen Jones

CROESO

Croeso i'r ardal i Mr a Mrs Dafydd a Margaret Jones (rhieni Pens a Niwc!) sydd wedi symud i fyw i Gwrt Faenor, Manor Chase, Gwaun Misgyn. Mae'n siwr fod Sioned, Carys, Lisa, Aled a Gwenno wrth eu boddau fod Taid a Nain wedi dod i lawr o'r gogledd. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yma.

CYDYMDEIMLAD

Estynwn ein cydymdeimlad i Cathy a Tony Coombs, Vicky a Darren, Meadow Farm ar farwolaeth tad Cathy yn ddiweddar.

GWELLHAD BUAN

Da yw deall fod Mrs Aneira Davies, Heol yr Eglwys yn mynd o gwmpas eto ar ôl cyfnod yn gwella yn dilyn llawdriniaeth ar ei chefn.

PRIODAS AUR

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Elwyn a Dilys Morgan y Ridings sy'n dathlu eu priodas aur ar Hydref 16eg.

LLWYDDIANT TGAU

Llongyfarchiadau i ddwy o famau Ysgol Gartholwg, Julie Harris a Tracey Jones ar eu llwyddiant diweddar yn eu arholiadau TGAU Cymraeg ail iaith. Roedd y ddwy yn mynychu dosbarth nos yng Ngholeg Technegol Pontypridd - dosbarth ymroddgar a brwdfrydig gyda phob aelod yn ennill gradd A neu B yn yr arholiadau TGAU. Llongyfarchiadau i bob aelod a dymunwn bob llwyddiant iddynt yn eu cyrsiau Cymraeg safon uwch.

YSGOL FEITHRIN TONTEG

Cynhelir 'Noson i'r Teulu' yn Festri Salem ar yr ail o Hydref. Bydd bwyd a diod o 4 o'r gloch ymlaen (£2.50 y tocyn).

Croesffordd Groesfaen, safle un o'r gatiau toll.

Diolch i Gwenllian Jenkins am ei chymorth wrth baratoi hanes ymgyrch Beca.

COSTAU BYW

LLYGAD Y GEINIOG

Faint o arian sy'n dod i mewn i'ch tŷ chi bob wythnos tybed? Y cyfartaledd yma yng Nghymru yw ychydig o dan £250 yr wythnos, sef £13,000 y flwyddyn. Mae unrhyw deulu sy'n ennill £26,000 y flwyddyn rhwng y gŵr a'r wraig, yn ennill ddwywaith gymaint â'r cyfartaledd Cymreig.

Fe ddaeth y ffigurau hyn i'r amlwg yn ystod y mis diwethaf wrth i un o adrannau'r llywodraeth gyhoeddi arolwg o wariant teuluoedd ledled Prydain. Un peth sy'n ddadlennol yn yr ystadegau yw fod y bwlch rhwng y tlawd a'r cyfoethog yn ymledu'n sylweddol, er gwaethaf honiadau'r llywodraeth eu bod yn ceisio creu cymdeithas ddi-ddosbarth. Mae cyfartaledd enillion De-Ddwyrain Lloegr yn £334 yr wythnos, tra bo gweithwyr Gogledd Iwerddon yn ennill cyfartaledd o rhyw £220 yr wythnos. Fe welwn ni felly mai rhywle yn y canol yr ydym ni yma yng Nghymru.

Ond rhaid cofio mai cyfartaledd yw'r ffigurau hyn. Mae rhai teuluoedd yn ennill cyn lleied â £60 yr wythnos, a thua un teulu o bob pump yn ennill dros £800 yr wythnos, sydd yn cyfateb i £41,600 y flwyddyn. Tybed faint o'r rhain sydd yn Nhaf Elái?

O gymryd y cyfartaledd gwariant dros wledydd Prydain yn gyffredinol, y neges yw fod teuluoedd yn gwario £272.10 ar gostau byw bob wythnos. Mae hyn yn gynnydd o 2.3% ar y flwyddyn cynt, hyd yn oed ar ôl cniatau am chwyddiant.

Ond i ble mae'r arian yn mynd?

CYFARTALEDD GWARIANT WYTHNOSOL



CYFARTALEDD PRYDEINIG £272.10

Mae'r tabl hwn yn crynhoi'r wybodaeth am y cyfartaledd gwariant, ac fe fedrwn ni i gyd gymhwyso'n sefyllfa ein hunain er mwyn cymharu. Efallai fod hynny'n haws ar ffurf canrannau:

Rhedeg Car	15.78%
Mwyniant	15.03%
Amrywiol	0.66%
Rhent/Morgais	17.42%
Gwres/Trydan	4.78%
Bwyd	17.53%
Alcohol	4.07%
Baco	1.98%
Dillad	6.03%
Cynnal Ty	12.97%
Personol	3.75%

Un ffaith fach ddiddorol i gnoi cil arni: Mae teuluoedd ar gyfartaledd yn gwario 6% o'u harian ar faco ac alcohol, a dim ond 2.7% ar elusen a mudiadau dyngarol. Rhyfedd o fyd?

Annwyl Syr .....

Y mis diwethaf fe estynnwyd gwahoddiad i ddarllenwyr Tafod Elái anfon unrhyw gwestiwn ariannol at y Golygydd i gael barn arbenigwr. Dau gwestiwn a dderbyniwyd, a'r ddau yn dymuno bod yn ddi-enw. Onid yw hi'n rhyfedd ein bod fel Cymry Cymraeg yn gyndyn o drafod arian yn gyhoeddus? Ta waeth, dyma geisio ateb un cwetiwn y mis hwn, a chaiff y llall aros tan fis Tachwedd.

Annwyl Syr,
Os gwelwch yn dda, a fedrwch chi egluro i leygwr fel fi beth yw'r gwahaniaeth rhwng PEP a TESSA?

Mae PEP (Personal Equity Plan) a TESSA (Cyfrif Cynilo Arbennig Rhydd o Dreth) yn ddau anfail cwbl wahanol.

Babi Nigel Lawson oedd y PEP, a'r bwriad oedd gwneud Thatcheriaid bach o bob un ohonom, drwy ein perswadio i fod yn berchen shiariau mewn cwmniau. Wrth brynu cynllun PEP, mae eich arian yn cael ei fuddsoddi er eich rhan yn y Farchnad Stoc, a does dim rhaid talu Treth Incwm na Threth Gyfalaf ar yr enillion. Yr unig broblem yw fod tua 700 o gynlluniau yn cael eu cynnig ar y farchnad, ac mae'n anodd iawn penderfynu pa rai sy'n rhagori. Hyd y gwelaf, does fawr o wahaniaeth rhyngddyn nhw o ran sylwedd, ond mae rhai cwmniau yn codi rhagor na'r lleill am weinyddu'r cynllun. Gochelwch rhag gostau rhy uchel. Y lleiafswm y cewch chi gyfrannu yw un lwmp swm o £500 y flwyddyn neu daliadau misol o £20. Chewch chi ddim buddsoddi rhagor na £6000 y flwyddyn mewn cynllun cyffredinol (gyda'r shiariau mewn amryw o gwmniau) ac un cynllun unigol (gyda'r shiariau mewn UN cwmni) o £3,000 y flwyddyn.

Gyda'r hyder newydd yn y Farchnad Stoc ar hyn o bryd, fe all PEP fod yn fuddsoddiad doeth, cyn belled â'ch bod yn hapus i fod yn hybu cynllun a fwriadwyd i wneud Toriaid bach da o bob un ohonom.

Cynllun sy'n cael ei redeg gan y banciau a'r Cymdeithasau Adeiladu yw TESSA. Mae'r egwyddor yn syml: Rydych yn buddsoddi swm mewn cynllun arbennig sy'n ddi-dreth, ond mae'n rhaid i chi addo cadw'r arian i mewn am bum mlynedd. Fe gewch eich cosbi'n drethiannol os tynnwch chi'r arian allan cyn i'r pum mlynedd ddod i ben.

➧

Bocs Sebon

Y mis diwethaf, trwy amryfusedd, fe fethwyd cynnwys enw Allan Jones wrth ei erthygl yn y golofn hon. Efallai fod datgelu enw'r awdur yn taflu golenui newydd ar ei chynnwys! Y mis hwn rydym yn croesawu Arwel Ellis Owen i gamu ar y Bocs Sebon.

50

Mae cyrraedd hanner can mlwydd oed yn ryddhad. Iwfforia wedi'r poeni, y trafod a'r paratoi cyn cyrraedd y Big Five O. Emosiynu tebyg, fe dybiwn, i gricedwr sydd newydd sgorio ei ganfed rhediad. Mae'r anrhegion, y cyfarchion a'r partion yn help wrth gwrs, wrth i un groesi trothwy hanner cant oed. Dwi'n cofio pan o'n i'n llanc ifanc, meddwl bod pobl yn eu tridegau yn hen. Hanner cant, crickey!

Ddeng mlynedd yn ôl, a minnau'n gorffwys mewn clinic Bupa yn Llundain wedi M.O.T. iechyd, dwi'n cofio clywed arbenigwr yn dweud wrth foi yn y gwely nesa: "Mae pethe yn dechreu mynd o chwith wedi hanner can mlynedd o draul". Felly yn union y digwyddodd hi i mi. Y pengliniau oedd y cynta i ddangos eu hoed. Llawdriniaeth - dwy op o fewn chwe mis ar y goes dde. Ond nid y penglin oedd i gyfrif am y gwendid, ond diffyg synnwyr cyffredin rhywle i'r gogledd o'r sgwydde. Fe benderfynais y llynedd, yn China o bob man, efelychu Ian Rush ar gae concrît. Aeth popeth yn dda am bum munud - symudiadau a trics peldroed ddaeth â lle i mi yn nhîm ysgolion Gwynedd bymtheg mlynedd ar hugain yn ôl. Ond wedi llai o amser nag mae'n gymeryd i ferwi ŵy yn Beijing, fe ddaeth popeth i stop. Roedd y pengliniau fel pwmpen - siâp a lliw.

Oriau yn ddiweddarach wedi massage, acupuncture a swig o chwisgi aeth y goes chwith yn ôl i'w siâp - ond gadawyd y penglin dde yn boenus a di-siâp yn llawn dŵr, ac asgwrn neu ddau yn y lle anghywir.

Chwe mis yn ddiweddarach a bil ysbyty o ddwy fil o bunnau mae'r ffyn cerdded a'r maglau yn segur yn y gornel a'r cloffi yn ara diflannu.

Smocio, yfed, jogio a gorweithio sy'n gyfrifol am heneiddio, dim henaint. Y rheswm pam yr es i am M.O.T. iechyd yn BUPA ddeng mlynedd yn ôl oedd hunllef personol. Ofn bod yn ddeugain. Cadw'n heini oedd yr ateb. Ymaelodi â chlwb yn ysgol Radur. Nos Lun wedi gwyliau hanner tymor yr Hydref oedd hi a'r athro ymarfer corff mewn hwyliau gwael. Doedd pump press-up ddim yn ddigon. Hanner ffordd rhwng llawr y gampfa a phenelin blinedig fe aeth hi'n dywyll iawn. Dwy awr yn ddiweddarach fe ddos ataf fy hun mewn gwely yn yr ysbyty yn y Waun. Gwifrau ym mhob man. Hanner awr yn ddiweddarach cael lifft adre gan siarsio fy ffrindiau i gadw'n dawel am y fath siom. Drannoeth, cyfaill arall yn galw yn y tŷ - wedi dod i gydymdeimlo â'r teulu gan ei fod wedi clywed fy mod wedi marw.

Dyma ofyn sut y clywodd am y ddrama? Atebodd ei fod wedi bod mewn dosbarth cadw'n heini, yn ysgol Radur, a bod y gofalwr yn dweud wrth bawb bod na foi wedi marw y noson gynt "It was his own silly fault, imagine doing pressups at fifty". A finna dim ond yno oherwydd fy mod i'n ofni bod yn ddeugain!

Gwell peidio amharu ar drefn bywyd. Mae 'na fendithion o dyfu'n hŷn. Wel - oes, mae na lond gwlad o fanteision o gyrraedd hanner cant - wel - arhoswch funud nawr — Un o wendidau yr oedran 'ma ydi dechrau anghofio pwy ydi pwy - a be ydi enw hwn a'r llall. Mae na beryg hefyd i un wamalu.

(Os oes gennych <u>chi</u> gyfraniad i'r Bocs Sebon, croeso i chi anfon gair. Does dim rhaid aros am wahoddiad. Gol.)

LLYGAD Y GEINIOG
(parhad)

Fe fedrwch chi fuddsoddi lleiafswm o £1 ac uchafswm o £9,000 dros y pum mlynedd; ond chewch chi ddim buddsoddi rhagor na £3,000 yn y flwyddyn gyntaf, a dim mwy na £1,800 yn y blynyddoedd sy'n dilyn. Y fantais yw y gallwch fuddsoddi swm misol rheolaidd, ac mae'r llog sy'n ddyledus yn cael ei dalu i'r cyfrif TESSA ar ben blwydd y cynllun.

Os ydych yn talu Treth Incwm, fe all hwn fod yn gynllun da cyn belled ag y gwyddoch na fyddwch angen yr arian ar frys.

CHWILIO AM BEN BACH 1994

1. Beth yw prifddinas Gwlad Pwyl?
2. Pa chwaraewr sydd yng nghanol rheng flaen tim rygbi?
3. Fel pwy mae Arglwydd Ponterwyd yn fwy cyfarwydd i ni?
4. Ai chi fydd pencampwr Pennau Bach eleni?

Os ydych chi'n medru ateb cwestiwn 1,2 a 3, efallai yr hoffech chi roi cynnig ar rif 4.

Bydd Pennau Bach, cwis gwybodaeth gyffredinol Radio Cymru yn ol ar yr awyr ddechrau'r flwyddyn newydd ac mae'r rhaglen yn chwilio am gystadleuwyr newydd i ymgeisio am deitl Pennau Bach 1994.

Fe fydd y cwisfeistr chwim, Tim Hartley, yn chwyrlio trwy Gymru yn ystod yr hydref i recordio'r rhaglenni. Os hoffech chi gystadlu yn y bencampwriaeth yna cysylltwch â'r rhaglen cyn gynted a phosibl. Ysgrifennwch nawr, gan nodi eich rhif ffon at Pennau Bach, Radio Cymru, BBC Cymru, 32 Heol Alexander, Abertawe SA1 5DT.

Mynnwch y Safon Orau
Archebwch gyda Sicrwydd

anglian
CANOLFAN FFENESTRI

Ar ôl 26 mlynedd yn cyflenwi rydym o'r farn fod ein enw yn seiliedig ar:

- **Ansawdd ein cynnyrch**
- **Safon ein gwaith gosod**
- **Ein gwarant deng mlynedd**

Am lyfryn am ddim neu am Bris
Cyflawn cysylltwch â
Eurig Griffiths
0633 262552
neu 0222 221707

TONYREFAIL

Gohebydd Lleol: D.J. Davies

YSGOL GYMRAEG TONYREFAIL
Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Thorne, Station Road, ar enedigaeth David James, brawd i Rachel sydd yn ddisgybl yn yr ysgol Gymraeg.

GWELLHAD BUAN
Mae Mrs Lynn Donovan un o'r gweinyddesau Meithrin yn yr ysgol Gymraeg wedi bod dan driniaeth llawfeddygol yn Ysbyty Penybont ar Ogwr yn ddiweddar. Rydym yn falch iawn o glywed ei bod ar wellhad. Tra bo Mrs Donovan i ffwrdd mae Miss Emma Cummings o Rydfelen yn llenwi'r bwlch. Croeso cynnes iddi i Donyrefail.

SYMUD I GAERFYRDDIN
Hwyl fawr i Katy ac Adam Boyt a'r teulu sydd wedi symud i Gwmffrwd yng nghyffiniau tre Caerfyrddin. Roeddynt yn byw yma yn Nhylcha-Wen cyn y symudiad, ac roedd Mrs Boyt yn cynorthwyo yn y Cylch Meithrin. Bydd y lle yn wag hebddi. Brodor o Meyler St, Trethomas yw hi ag yntau o Abertawe.

GWELLHAD BUAN
Dymunwn wellhad buan i Mrs Cynthia Morgan o Parklands Cres., ar ôl triniaeth law-feddygol yn yr ysbyty yn ddiweddar.

LONG BOWL
Cafodd aelodau'r Urdd noson hwyliog dros ben cyn gwyliau'r haf yn y Long Bowl yn Nhonyrefail.

PENODIAD
Llongyfarchiadau i Mrs Gillian Edwards o Gilfach Goch ar ei phenodiad yn athrawes yn Ysgol Gyfun y Cymer. Mae ganddi hi a'i gwr dwy ferch, un yn y Cymer a'r ieuengaf yn Ysgol Gymraeg Tonyrefail. Pob bendith iddi.

PRIODAS
Llongyfarchiadau i Mrs Mary Maund, cyn-athrawes yn yr ysgol ar ei phriodas â Denis Thomas Stephenson yng Nghaerfyrddin ar Awst 25ain diwethaf. Byddant yn ymgartrefu yn ardal Castell Newydd Emlyn yn Nyfed.

EGLWYS Y PLWYF
Yn ystod wythnos 13eg-18fed o Fedi bu'r Ficer ag aelodau a ffriniau yn brysur iawn yn addurno'r eglwys gyda blodau a lluniau o hen Donyrefail a'r newydd i ddathlu 90 oed yr adeilad a'r achos. Roedd y blodau wedi eu gosod ar wahanol themau fel bedydd, priodas, ordeinio, drindod, Arch Noa, cynhaeaf, cerddoriaeth Eglwysig, Nadolig, Pasg, Penticost ac heb anghofio Eglwys Sant Ioan, hen eglwys Tonyrefail cyn codi'r eglwys newydd yn 1903 ar safle yn dyddio nôl i'r unfed ganrif ar ddeg. Bu'n eglwys Gymraeg tan ei dadgorfforiad yn 1977. Mae cloch yr hen eglwys wedi ei gosod yn y gangen yn eglwys Sant Alban's yng Nghwmlai. Scowtiaid sydd yn defnyddio'r adeilad bellach. Mae yna gofeb iddi yn yr adeilad newydd yn y cyntedd ogleddol fel allor ychwanegol a chanhwyllbrenau o'r hen eglwys. Roedd y gwaith ar dull y gosodwyd y blodau a'r lluniau yn werth eu gweld. Llongyfarchiadau i bob un a fu wrthi'n paratoi'r arddangosfa.

Os am
DIWNIWR
PIANO
Cysylltwch a
Hefin Tomos,
16 Llys Tello Sant,
Y Rhath.
CAERDYDD.
Ffon: 0222 484816

ARDDANGOSFA HUW RHYDWEN

Ar hyn o bryd yng Nghanolfan Hanesyddol a Diwylliannol Pontypridd mae arddangosfa o weithiau celf diweddar Huw Rhydwen. Gwaith dyfriliw neu pensil yw'r rhan fwyaf o'r lluniau sy'n portreadu bywyd yng nghymoedd glofaol y de ac hefyd ar lechweddau llechi y gogledd. Mae'r Capel yn cael lle amlwg yn y ddwy ardal, hefyd gwelir adfeilion y diwydiant llechi a'r bythynnod gwag. Mae'n arddangosfa ddiddorol sy'n adlewyrchu dirywiad bywyd, diwydiant a diwylliant yng Nghymru.

DIGWYDDIADUR

Nos Lun, 4 Hydref. Dosbarthiadau Nos "Dramau Un Act" gyda Emyr Edwards am 7.30 yn Festri Tabernacl Efail Isaf.

Nos Fercher, 6 Hydref
Bowlio Deg yn Tonyrefail

Nos Sadwrn, 9 Hydref.
Gig y Fenter yng Nghlwb y Bont.

Nos Fawrth, 12 Hydref
Nyddu'r Cynganeddion, cwrs 18 wythnos, Festri Capel Bethlehem, Gwaelod y Garth am 7.30.

Nos Fercher, 13 Hydref
"Clecs Cwmderi" gyda Glenda Jones - cyfarfod Cangen y Garth Merched y Wawr yn Neuadd Pentyrch am 8.00.

Nos Wener, 15 Hydref
Cyfarfod Blynyddol Menter Taf Elái am 7.30 yn y Brunel Arms, Pontyclun. Parti'r Fenter gyda Dafydd Hywel a Sue Roderick am 9.00.

Nos Lun - Nos Iau, 18 - 21 Hydref
"Mewn Cadwyni", Drama Gerdd Ysgol Gyfun Rhydfelen am 7.15.

SIOE FFASIWN TAF ELÁI

Ar yr 19fed o Dachwedd cynhelir sioe ffasiwn Taf Elái yn y Miwni. Cynhyrchir y sioe gan Tŷ Model, Llantrisant ac eleni bydd Ysgol Gyfun Bryncelynnog ac Ysgol Gyfun Rhydfelen yn cynrychioli Taf Elái drwy arddangos gwaith cynllunio ysgolion a cholegau yr ardal.

Hefyd yn y sioe bydd enillwyr Gwobr Ffasiwn 1993 Awdurdod Datblygu Cymru, yn eu plith rhai o brif gynllunwyr ffasiwn Cymru.

Yn dilyn eu hymweliad â'r Miwni bydd y sioe yn mynd i Neuadd Dewi Sant, Caerdydd ac i Ddulyn.

Nos Fercher, 20 Hydref.
Brethyn Cartref, Clwb y Dwrlyn am 8.00 yng Nghlwb Rygbi Pentyrch.

Nos Fercher - Nos Wener, 24 - 26 Tachwedd, Gŵyl Ddrama Tafod Elái.

CAN MLYNYEDD YN ÔL

Eleni nodir can-mlwyddiant Eisteddfod Pontypridd 1893. Yn yr arddangosfa o fywyd William Price yn Amgueddfa Pontypridd mae lliain wedi ei brintio yr adeg honno, ac arno y canlynol:

Eisteddfod Genedlaethol
Pontypridd 1893.

Llwydd, Llwydd Eisteddfod Lawen
Ein Haruchelaf Ŵyl;
Ar lanw Cân ac Awen
Mae Cymru'n Codi Hwyl.

Printiwyd y llian gan Gwmni Jones (Dilledwyr), Sgwâr y Farchnad, Pontypridd.

CHARLES Y SAER

SAER COED
CYNNAL A CHADW
MÂN WAITH ADEILADU

Charles Roberts ☎ 0222 342239
129 Ffordd Parc Ninian Glanyrafon Caerdydd CF1 8HX

Urdd y Meistri Crefftwyr

TIWTORIAID TIWTORIAID TIWTORIAID
Cymraeg
Yn eisiau drwy Forgannwg Ganol
Y llafur yn fawr a'r gweithwyr yn brin
Brwdfrydedd ac egni yw'r prif gymhwyster
Cydnabyddiaeth Anrhydeddus
Hyfforddiant ar gael. Cyrsiau cyfoes.
Ffon: 0443 485838.

DATHLU YN Y CLWB

Dathlwyd deng mlwyddiant Clwb y Bont gyda phenwythnos o weithgareddau. Roedd y Lolfa dan ei sang ar gyfer cyngerdd Dafydd Iwan ac roedd yntau ar ei orau. Oherwydd fod angen newid tant ar y guitar cafwyd cyfres hyfryd o ganeuon di-gyfeiliant ganddo yn yr hanner cyntaf. Yna gyda chymorth Euros Rhys ar yr allweddellau cafwyd dilyniant o'r hen ffefrynnau a'r clwb yn adseinio i "Cerddwn Ymlaen" ac "I'r Gâd". Noson i'w chofio.

Daeth Teulu'r Tomosiaid Penybont gyda chymorth Catrin Morris yn fuddugol yn y Mega-cwis nos Wener a Thîm Clwb Criced Ifor Bach yn ail.

GWOBRAU MEDI CLWB 200 CLWB Y BONT

1	Norman Gill	£250
2	Menna Lewis	£150
3	I.M. Davies	£100
4	Beryl Edwards	£50
5	Sian Yeo	£50
6	Beryl Edwards	£25
7	Menna O Lewis	£25
8	Dil R Davies	£25
9	Llinos Darcy	£25

Chwaraeg Teg

Fe ddathlodd Chwarae Teg ei benblwydd yn un oed ac mae bellach yn gweithio yn y rhan fwya' o Gymru. Y bwriad yw ennill chwarae teg i fenywod yn y lle gwaith ac mae'n cael ei gefnogi gan gonsortiwm o gyrff cyhoeddus - yr Awdurdod Datblygu, y Comisiwn Cyfle Cyfartal, Cynghorau Sir a TEC's. "R'yn ni'n ceisio chwalu rhwystrau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol," meddai'r gyfarwyddwraig brosiectau, Jane Hutt. "R'yn ni'n bendant ar y ffordd."

Mae arolygon yng Nghymru wedi dangos mai cymharol ychydig o fenywod sydd mewn swyddi rheoli uwch a swyddi technegol ac mae llawer mewn swyddi rhan amser yn y diwydiannau gwasanaethu. Gellir cael mwy o wybodeth gan Jane Hutt (0443 841777).

SNICHOD Y TAFOD

"SNICHOD Y TAFOD" - ar gyfer ein darllenwyr mwy deallus. Pôs geiriol ym mhob rhifyn.

Atebion i: Yr Hafod
1 Llys Gwynno
Creigiau



Atebion mis Medi

1. Mwyar Duon
2. Telyn Deires
3. Pawb a'i farn
4. Twll triongl
5. Haf Bach Mihangel



WYDDOR CHI

Nifer fwyaf o eiriau tair llythyren a throsodd gan gynnwys o leiaf un gair naw llythyren.

* *Rhaid defnyddio'r lythyren ganol ymhob gair.*
* *Dim geiriau Saesneg.*
* *Dim geiriau wedi eu treiglo.*

Geiriau i: *Yr Hafod*
1 Llys Gwynno
Creigiau

L	'U	A
E	G	S
N	E	R

Gair naw llythyren mis Medi: Llymeitiwr